# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion (PET(3)-14-09)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 20 Hydref 2009**
**Amser: 09:34-09:47**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Michael German AC, Dwyrain De Cymru

Janet Ryder AC, Gogledd Cymru

### Swyddogion

Alun Davidson, Clerc

Andrew Minnis, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

Gareth Pembridge, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Andrew RT Davies a Bethan Jenkins. Roedd Janet Ryder yn dirprwyo ar ran Bethan Jenkins.

### Eitem 2: Deisebau Newydd

### (i) P-03-252 Gwrthwynebu Ffordd Fynediad Ogleddol Canolfan y Llu Awyr Brenhinol Sain Tathan (trigolion Trebefered)

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i'w hysbysu o'r ffaith bod y ddeiseb wedi ei derbyn

Ysgrifennu at y deisebwyr i roi copi o ymateb y Dirprwy Brif Weinidog iddynt mewn cysylltiad â deiseb P-03-227 Ffordd Fynediad yn Llanmaes a gofyn iddynt am eu barn.

### (ii) P-03-253 Mabwysiadu carthffosydd preifat (trigolion Sir Gaerfyrddin)

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am fanylion unrhyw gynlluniau ar gyfer mabwysiadau carthffosydd preifat ar ystadau tai presennol gan Ddŵr Cymru a Dŵr Hafren Trent

Gwneud cais am nodyn briffio gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Ysgrifennu at yr holl Aelodau Cynulliad yn eu hysbysu ein bod wedi derbyn y ddeiseb ac yn gofyn a oes materion ehangach yn gysylltiedig â'r ddeiseb yr hoffent eu dwyn i sylw'r Pwyllgor.

### Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### (i) P-03-172 Adfer fferi Abertawe-Cork

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn iddo hysbysu'r Pwyllgor o unrhyw ddatblygiadau pellach tuag at sicrhau'r cyllid angenrheidiol a chychwyn y gwasanaeth.

## (ii) P-03-205 Cadwch Farchnad Da Byw Y Fenni

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gofyn iddo:

Ystyried diwygio Deddfau Gwella'r Fenni yn hytrach na'u diddymu

Hysbysu'r Pwyllgor cyn gynted ag y caiff y cais diddymu a'i fod yn darparu manylion cyrhaeddiad yr ymgynghoriad

Cynnwys KALM, a'r sefydliadau arall, mewn unrhyw ymgynghoriad.

## (iii) P-03-213/235 Deisebau rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn eu hysbysu o'r ddadl arfaethedig ar ddirymiad y Gorchymyn Twbercwlosis Buchol.

## (iv) P-03-227 Ffordd Fynediad yn Llanmaes

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn eu hysbysu o ymateb y Dirprwy Brif Weinidog i'r ddeiseb a gofyn iddynt am eu barn.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Hydref 2009**